E-lawlyfr 1

SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

**Adnodd 4**

# *Ymddygiad pleidleisio yn y cyd-destun Cymreig*

# Cyflwyniad a Gwybodaeth Graidd

# CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr israddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Nodir awdur(on) penodol pob adnodd ar waelod y dudalen hon. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru wedi bod yn bartner yn y prosiect o'r dechrau.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid y bwriad oedd cynhyrchu gwerslyfr swmpus, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon. O'r herwydd, mae tair elfen i bob adnodd:

**: Gwybodaeth Graidd**

**: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion**

**: Canllaw i Athrawon**

Mae E-lawlyfr 1 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol wedi'u teilwra i Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Dylid nodi nad yw'r 8 adnodd yn cwmpasu'r holl feysydd yn y fanyleb. Yn hytrach, penderfynwyd ar gynnwys yr 8 adnodd drwy asesu meysydd lle roedd galw am ddeunydd astudio Cymraeg, gan gynnwys ymgynghori ag athrawon.

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 1 isod, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb Uned 2: 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth' sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd unigol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| Adnodd 1: Cyfranogiad yng Nghymru | 2.2.1: Pwysigrwydd cyfranogiad mewn democratiaeth ac effeithiau diffyg cyfranogiad. |
| Adnodd 2: Systemau Etholiadol yn y DU | 2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU. |
| Adnodd 3: Defnyddio refferenda yng Nghymru | 2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU<br>– Defnyddio refferenda yng Nghymru a'r DU gan gynnwys enghreifftiau a manteision ac anfanteision. |
| **Adnodd 4: Ymddygiad pleidleisio yn y cyd-destun Cymreig** | **2.2.3: Ymddygiad pleidleisio**<br>**– Modelau ymddygiad pleidleisio (modelau cymdeithasegol, dewis rhesymegol a falens) gan gynnwys y prif ffactorau tymor hir a thymor byr sy'n dylanwadu ar ymddygiad pleidleisio: ymgyrchoedd; ymgeiswyr; dylanwad y cyfryngau.**<br>**– Rhesymau dros deyrngarwch pleidiol a dadymochri pleidiol yng Nghymru a'r DU ac i ba raddau y maent yn digwydd.** |
| Adnodd 5: Carfanau pwyso 1: Nodweddion a mathau | 2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| Adnodd 6: Carfanau pwyso 2: Dulliau Dylanwadu | 2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| Adnodd 7: Mudiadau cymdeithasol 1: Nodweddion a mathau | 2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| Adnodd 8: Mudiadau cymdeithasol 2: Dulliau Dylanwadu | 2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |

**Awdur yr adnodd:**

Dr. Elin Royles, Prifysgol Aberystwyth

Golygwyd E-lawlyfr 1 gan Dr. Elin Royles.

# GWYBODAETH GRAIDD

Er bod y broses o bleidleisio ei hunan yn weddol syml, mae'r rhesymau y tu ôl i benderfyniadau i bleidleisio mewn ffyrdd penodol yn fwy cymhleth ac wedi arwain at ystod o ddulliau a modelau gwahanol i egluro beth sy'n dylanwadu ar sut mae pobl yn pleidleisio.

## Beth yw rhai o'r prif ffyrdd o egluro ymddygiad pleidleisio yn y DU?

| | PRYD A PHWY | PRIF BWYNTIAU | GWERTHUSO |
|---|---|---|---|
| **Damcaniaeth pleidleisio mynegiannol** (*expressive voting*) | 1950au a'r 1960au<br>Butler a Stokes *Political Change in Britain* (1965) | Ymochri Pleidiol.<br>Ymochri Dosbarth.<br>Nodweddion cymdeithasol unigolyn yn pennu sut fyddai'n pleidleisio. Honnwyd bod mwyafrif pleidleiswyr yn uniaethu â phlaid benodol. Ffactor allweddol i ddeall ymochri â phlaid oedd dosbarth cymdeithasol, e.e. dosbarth gweithiol yn pleidleisio dros y blaid Lafur.<br>I'r model hwn gwahaniaethau rhanbarthol, cenedlaethol neu grefydd ddim yn bwysig. | Gweddu orau i egluro etholiadau rhwng 1945 a 1970.<br>Prosesau dadymochri pleidiol a dadymochri dosbarth. |
| **Model gwybyddol o bleidleisio** (*cognitive model*) | 1980au<br>Himmelweit, Humphreys a Jaegar *How Voters Decide* (1981) | Mae pleidleiswyr yn rhesymegol, yn dod i benderfyniad eu hunain. Dewisir pleidleisio dros y blaid sydd agosaf at eu hanghenion, eu blaenoriaethau a'r blaid fyddai'n cael yr effaith fwyaf positif ar eu lles. | Pwyslais ar yr unigolyn yn lle'r cyd-destun cymdeithasol ehangach. Diffyg ystyriaeth ddigonol i'r modd y gall dosbarth gael rhywfaint o effaith ar ymddygiad pleidleisio?<br>Y model yn methu o ran egluro canlyniadau etholiadau. |

| | PRYD A PHWY | PRIF BWYNTIAU | GWERTHUSO |
|---|---|---|---|
| **Damcaniaeth dewis rhesymegol** (*rational choice theory*) | 1970au ymlaen<br>Nifer o fodelau ac awduron â phwysleisiau gwahanol gan gynnwys David Denver. | Yn lle bod ffactorau tymor hir yn bwysig i ddeall ymddygiad pleidleisio, canolbwyntir ar bleidleiswyr unigol a'r prosesau o ran sut maen nhw'n penderfynu sut i bleidleisio, yn enwedig ffactorau tymor byr. Ffactorau allweddol:<br>: Hygrededd a'r gallu i lywodraethu – os credir bod perfformiad y llywodraeth wedi bod yn dda yna mae'n debyg y bydd y blaid mewn grym yn ennill.<br>: Materion polisi – rhai materion polisi yn allweddol i'r etholwyr, e.e perfformiad yr economi ond hefyd mae sefyllfa polisi fel iechyd ac addysg yn cynyddu mewn pwysigrwydd.<br>: Delwedd arweinwyr pleidiau<br>: Delwedd a phoblogrwydd arweinwyr yn gynyddol bwysig.<br>: Dylanwad y cyfryngau<br>: Dylanwad sylweddol y cyfryngau ar ddelwedd y pleidiau.<br>Yr ymgyrch – gan fod cynnydd yn y nifer heb gyswllt â phlaid benodol a sydd yn penderfynu sut i bleidleisio yn eithaf hwyr, mwy o gyfle i ddylanwadu. Datblygiad dulliau mwy soffistigedig o ymgyrchu. | Dim un model o'r syniad hwn – ydi hyn yn golygu ei fod yn rhoi llawer o hyblygrwydd i'r model egluro? |
| **Gwleidyddiaeth Falens** (*Valence Politics*) | Clarke et al (2004). *Political Choice in Britain* | Etholwyr yn bwrw pleidlais ar sail eu barn am gymhwysedd pleidiau gwleidyddol ar faterion 'falens'. Prif nodweddion – graddau uniaethu â phlaid, perfformiad arweinwyr, gwerthusiad o gymhwysedd a pherfformiad plaid. | Canolbwyntio ar ganfyddiad a barn y pleidleiswyr yn osgoi problemau damcaniaeth dewis rhesymegol o ran lefel isel dealltwriaeth am bolisïau pleidiau ayyb.<br>A oes digon o sylw i hunaniaeth? |

## Beth am Gymru?

Mae tueddiadau pleidleisio gwahanol yng Nghymru wedi bod yn fwyfwy amlwg ers datganoli gwleidyddol a sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol hefyd fod cyd-destun hanesyddol o dueddiadau pleidleisio gwahanol yng Nghymru.

Y duedd oedd hawlio bod unffurfiaeth ar draws y Deyrnas Unedig o ran ymddygiad pleidleisio, a chyfeiriwyd ato fel y '*British homogeneity thesis*'. Yn ôl y syniad hwn, prif nodweddion etholiadau yn y DU oedd cystadleuaeth rhwng dwy brif blaid a taw dosbarth oedd yn pennu sut fyddai pleidleiswyr yn dewis bwrw eu pleidlais.

> '***the simple division between working and middle class....contributes to the clearest cleavage in British political attitudes and voting behaviour.' 'Britain is probably the most homogenous of all industrial countries.'*** (Blondel, 1974)

Fodd bynnag, mae patrymau pleidleisio yn yr Alban a Chymru wedi bod yn wahanol wrth i Lafur ennill lefel uwch o gefnogaeth yno, wrth i'r Ceidwadwyr ennill cefnogaeth sylweddol is ac wrth i'r Democratiaid

Rhyddfrydol ennill rhywfaint yn llai nag yn Lloegr. Daeth y gwahaniaeth mawr yn ymddygiad pleidleisio yng Nghymru a'r Alban o'r 1970au ymlaen. Ffactor allweddol oedd twf y gefnogaeth i bleidiau cenedlaetholgar fel Plaid Cymru a'r SNP. Er bod canlyniad Etholiad Cyffredinol 1979 yng Nghymru wedi bod yn gymharol debyg i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn sgil twf y gefnogaeth i'r blaid Geidwadol, roedd nodweddion gwahanol yn parhau.

Dywedodd Balsom, Madgwick a Van Mechelen (1982:1): '***Wales stubbornly refuses to merge indistinguishably into the wider British body politic. Distinctive patterns of behaviour and issues of special note remain***.'

Er mwyn egluro hyn, datblygwyd model gan Balsom sy'n pwysleisio ffactorau cymdeithasol, yn enwedig hunaniaeth genedlaethol ac iaith i ddeall ymddygiad pleidleisio. Ar sail patrymau pleidleisio, fe dynnwyd sylw at wahaniaethau yn y patrymau pleidleisio rhwng Cymru a Lloegr a'r gefnogaeth i wahanol bleidiau mewn rhanbarthau daearyddol o Gymru mewn 'Model Tri Chymru' (Balsom, 1985). Y tri 'rhanbarth' oedd:

- 'Y Fro Gymraeg': ardaloedd gorllewinol â'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg a synnwyr cryf o hunaniaeth Gymreig fyddai'n fwy tebygol o bleidleisio dros Blaid Cymru a'r Blaid Lafur
- 'Welsh Wales': y cymoedd a'r ardaloedd diwydiannol gynt yn y de fyddai'n teimlo'n Gymreig ac yn fwy tebygol o bleidleisio dros y Blaid Lafur
- 'British Wales': ardaloedd dwyreiniol ar y ffin â Lloegr, ardael Caerdydd a'r Fro a Phenfro, yn teimlo'n fwy Prydeinig, ddim yn siarad Cymraeg ac yn fwy tebygol o bleidleisio dros y Ceidwadwyr neu'r Blaid Lafur.

## Beth am ymddygiad pleidleisio yng Nghymru wedi 1999?

Y duedd ym maes astudio gwleidyddiaeth etholiadol yw meddwl taw etholiadau ar lefel y wladwriaeth (e.e. Etholiadau Cyffredinol) yw'r prif gystadleuaeth wleidyddol a bod yr un tueddiadau yn dylanwadu ar etholiadau is-wladwriaethol ag ar y lefel wladwriaethol.

O ganlyniad, y disgwyliad yn yr etholiad cyntaf i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999 oedd y byddai'n debyg i ganlyniad yr etholiad diwethaf yng Nghymru yn 1997 gan osod y Blaid Lafur fel y brif blaid ac na fyddai unrhyw blaid yn gallu ei herio o ddifrif. Mae'r Blaid Geidwadol wedi ei hen ystyried fel plaid 'Seisnig' yng Nghymru gan arwain at ennill 10-15% yn is o gyfran y bleidlais yng Nghymru nag yn Lloegr. Mewn pocedi o Gymru yn unig roedd cefnogaeth gref i Blaid Cymru.

Wrth edrych ar y data ar ganlyniadau etholiadau i'r Cynulliad ac i San Steffan ers 1997, gwelir bod ymddygiad pleidleisio etholwyr Cymru yn wahanol i Loegr a'u bod yn pleidleisio mewn ffordd wahanol mewn etholiadau datganoledig o'u cymharu â rhai i San Steffan.

Yn ymarferol, mae'r pleidiau wedi perfformio yn wahanol mewn etholiadau datganoledig am ddau brif reswm. Un ffactor sydd i gyfrif am hyn yw'r system bleidleisio, system bleidlais sengl drosglwyddadwy sy'n un rhannol gyfrannol. Mae hyn yn golygu bod cyfle i bleidleiswyr deimlo'n fwy parod i bleidleisio dros bleidiau gwahanol a defnyddio eu dwy bleidlais dros bleidiau gwahanol. Ffactor arall yw bod y gefnogaeth i'r pleidiau gan yr etholwyr yn wahanol wrth bleidleisio mewn etholiadau i'r Cynulliad ac i San Steffan. Fel sy'n digwydd mewn gwledydd eraill sydd â phleidiau cenedlaetholgar, mae lefel uwch o gefnogaeth i blaid genedlaetholgar mewn etholiadau datganoledig o'u cymharu ag etholiadau gwladwriaethol / cyffredinol.

## Pam? Esboniadau o ymddygiad pleidleisio yng Nghymru ers 1999

**Etholiadau ail radd** (*Second-Order Elections*) – Y syniad bod etholwyr yn ystyried mai etholiadau cyffredinol ar draws y wladwriaeth yw'r rhai pwysicaf. Dadleuir y bydd yr etholwyr yn gweld etholiadau ar lefelau eraill o safbwynt gwleidyddiaeth lefel y wladwriaeth ac yn llai pwysig. O ganlyniad, gan fod llai yn y fantol, y ddadl yw y bydd llai o bobl yn pleidleisio mewn etholiad ail radd. Yn yr un modd, dadleuir y bydd pleidiau llai neu sydd yn fwy ymylol yn debygol o ennill mwy o gyfran o'r bleidlais, ac y bydd etholwyr yn fwy tueddol o bleidleisio gyda'u calon ac fel protest. Hefyd, dadleuir y bydd pleidiau sydd yn amhoblogaidd ar lefel y wladwriaeth yn fwy tebygol o berfformio'n waeth ar y lefel is-wladwriaethol.

**Pleidleisio aml-lefel** (*Multi-level Voting*) – Gwrthodir y syniad bod etholiadau datganoledig yn cael eu gyrru gan wleidyddiaeth ar draws y wladwriaeth yn unig fel sy'n cael ei awgrymu gan y syniad o etholiadau ail radd. Yn hytrach, tynnir sylw at y **gwahaniaeth systematig** mewn cefnogaeth i rai pleidiau mewn gwahanol fathau o etholiadau. Er enghraifft, mae pleidiau cenedlaetholgar fel Plaid Cymru yn ennill cyfran uwch o'r bleidlais mewn etholiadau datganoledig nag mewn etholiadau i San Steffan beth bynnag fo union amgylchiadau'r blaid ar y pryd, e.e. mewn blynyddoedd da neu ddrwg iddyn nhw. Dadleuir bod y rhai sy'n pleidleisio yn wahanol mewn etholiadau datganoledig yn ystyried rhai pleidiau yn fwy perthnasol na'i gilydd ar lefelau gwahanol o lywodraeth. Yn cefnogi'r syniad hwn mae'r modd mae pleidiau'n fwy llwyddiannus po fwyaf yw eu hunaniaeth benodol o fewn i'r genedl/ rhanbarth penodol.

**Gwleidyddiaeth Falens** (*Valence Politics*) – Dyma syniad sy'n dod yn fwyfwy amlwg o ran sut i astudio etholiadau cyffredinol mewn llawer o wledydd ac mae rhai yn dadlau ei fod hefyd yn berthnasol i ddeall etholiadau is-wladwriaethol hefyd. Honnir bod pleidleiswyr yn dewis sut i bleidleisio ar sail meini prawf cymhwysedd dros faterion 'falens', cymhwysedd plaid mewn llywodraeth ac i ba raddau ystyrir ei bod yn gallu sicrhau llewyrch economaidd, diogelwch a gwasanaethau cyhoeddus effeithiol. Ar y lefel, ddatganoledig, yn ogystal â'r modd mae etholwyr bwrw eu pleidlais yn bennaf ar sail cymhwysedd plaid i lywodraethu ar y lefel ddatganoledig, dadleuir hefyd fod diogelu diddordebau'r rhanbarth/ y genedl hefyd yn fater falens pwysig mewn etholiadau datganoledig.

'*voters in Wales and Scotland do systematically bring different criteria for judgement to bear on the way they vote in devolved and UK elections*.' (Jeffery & Hough, 2006: 225).

**Gwleidyddiaeth Falens ac Etholiad y Cynulliad 2016** '*standard socio-demographic factors have little ability to explain contemporary voting behaviour in Wales*.'

'*The main variables that emerge as statistically significant are those most closely associated with the 'valence politics' model: those who have a favourable opinion of the leader of a party are generally far more likely to vote for that party, as are people who perceive a given party to be the best or most competent on the most important issue. If they confirm anything, the results of this initial analysis of voting in Wales in 2016 reinforce the importance of party leaders for vote choice in contemporary general elections*.' (Scully a Larner, 2017: 524-52)

## Rhai dylanwadau tymor byr ar bleidleisio mewn etholiadau i'r Cynulliad

Mae deall goblygiadau rhai o'r ffactorau tymor byr sy'n dylanwadu ar ymddygiad pleidleisio mewn etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn faes sy'n tyfu. Gellir tynnu sylw at rai nodweddion allweddol ymgyrchoedd etholiadau i'r Cynulliad.

## Dylanwad y Cyfryngau

Un o brif heriau etholiadau i'r Cynulliad yw'r sylw cyfyngedig i etholiadau datganoledig gan y wasg Lundeinig sef ymdrechion cyfyngedig gan y cyfryngau teledu a radio ac hyd yn oed gwannach gan y cyfryngau print. Yn cyd-fynd â hyn mae tuedd i ymgyrchoedd etholiadau'r Cynulliad gael eu cysgodi gan sylw i faterion gwleidyddol Prydain gyfan gan leihau'r sylw i'r etholiad ei hunan. Yn ystod etholiad 2003, rhyfel Irac oedd yn cael llawer o sylw'r wasg, tra adeg etholiad 2016 y datganiad ar gynnal refferendwm ar yr UE y mis ar ôl etholiad y Cynulliad oedd yn hawlio'r sylw.

Mae llawer o ymchwil wedi tynnu sylw at wendidau'r cyfryngau newyddion yng Nghymru, yn enwedig y cyfryngau print sydd wannaf o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ymhellach, dangosodd ymchwil gan Roger Scully i Etholiad Cynulliad Cymru 2011 bod gwleidyddiaeth y DU yn cael mwy o ddylanwad ar ddewisiadau pleidleisio yng Nghymru nag yn yr Alban. Mae ymdrechion cynyddol gan y BBC ac ITV yng Nghymru i annog pleidleiswyr i ymwneud ag etholiadau datganoledig, ond rhaid meddwl am faint o etholwyr Cymru sy'n gwylio'r rhaglenni.

**Enghraifft Etholiad y Cynulliad 2016**: Cynhaliwyd dadleuon yr arweinwyr ar y ddwy sianel ar amser gwylio brig a rhoddwyd sylw i ymgyrchoedd y pleidiau ar raglenni penodol, gan gynnwys rhoi cyfle i'r cyhoedd holi'r arweinwyr. Yn ogystal ag eitemau etholiadol ar newyddion Cymru ar y teledu, rhoddwyd sylw helaeth i'r ymgyrchoedd ar 'Radio Wales' a 'Radio Cymru' hefyd.

## Delwedd a chapasiti'r pleidiau i ymgyrchu yng Nghymru

Rhan o addasu'r pleidiau i wleidyddiaeth aml-lefel yw ymateb i ymddygiad pleidleisio mewn etholiadau ar lefelau gwahanol. Mae hyn yn golygu bod y pleidiau sy'n cystadlu ar draws y wladwriaeth (e.e. Llafur, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol) i raddau gwahanol i'w gilydd wedi datblygu eu strwythurau er mwyn gallu ymgyrchu'n fwy effeithiol yng Nghymru. Gan ddechrau weithiau o sefyllfa ble roedd y blaid yn ganolog yn ceisio cadw rheolaeth gref yn yr etholiad cyntaf yn 1999, mae'r addasu wedi sy'n dod yn fwyfwy amlwg o ran pwy sy'n gyfrifol am strategaeth etholiadol, llunio polisi a safbwynt strategaeth benodol i Gymru, a delwedd benodol Gymreig i'r blaid. Mae hon yn dacteg bwysig hefyd i wahaniaethu eu hunain oddi wrth eu plaid ar y lefel wladwriaethol os yw'n amhoblogaidd. Yn yr un modd, mae gofyn i bleidiau cenedlaetholgar fel Plaid Cymru addasu i wleidyddiaeth ddatganoledig wrth i'r pleidiau eraill fabwysiadu delwedd fwy Gymreig.

Delwedd Gymreig y pleidiau yn etholiad y Cynulliad 2016 ar sail teitl eu maniffesto

Llafur Cymru – Gyda'n Gilydd dros Gymru / Together for Wales

Plaid Cymru – Y Newid Sydd Ei Angen / The Change Wales Needs

Ceidwadwyr Cymreig – Securing Real Change for Wales

Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig – A Wales that works for you

UKIP – A Strong Voice for Wales'

## Arweinyddiaeth y pleidiau

Mae arweinwyr y pleidiau yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn ymgyrchoedd etholiadol fel mewn etholiadau cyffredinol. Yn gysylltiedig â hyn, mae'r wasg yn canolbwyntio fwyfwy ar arweinwyr y pleidiau, mewn ffordd sydd yn ymddangos weithiau fel petai'n debyg i ymgyrch arlywyddol.

Er enghraifft, yn etholiad y Cynulliad 2003, roedd ymgyrch Llafur yn canolbwyntio ar Rhodri Morgan a'i broffil uchel a lefel uchel o boblogrwydd, yn enwedig o'i gymharu ag arweinwyr eraill. Yn yr un modd chwaraeodd Carwyn Jones ran flaenllaw yn ymgyrch ei blaid yn etholiad 2011 a 2016. Ar ôl olynu Rhodri Morgan fel arweinydd Llafur Cymru yn 2009 roedd cefnogaeth bersonol gref iddo ac yn 2011 cynorthwyodd y newid mewn arweinyddiaeth i'r blaid adfywio ei hapêl i'r pleidleiswyr. Ef oedd wyneb a llais amlwg ymgyrch Llafur yn 2016 tra bo Leanne Wood hefyd yn amlwg iawn yn ymgyrch Plaid Cymru.

## Barn etholwyr ar ymgyrch y pleidiau a'u harweinwyr yn Etholiad y Cynulliad 2016

| A. PLAID | % | B. ARWEINYDD | % |
|---|---|---|---|
| Llafur | 11 | Carwyn Jones | 12 |
| Ceidwadwyr | 5 | Andrew RT Davies | 4 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 | Kirsty Williams | 4 |
| Plaid Cymru | 14 | Leanne Wood | 25 |
| UKIP | 6 | Nathan Gill | 3 |
| Arall | 2 | Arall | 1 |
| Ddim yn gwybod | 59 | Ddim yn gwybod | 51 |

Cwestiynau a ofynnwyd:

A. Pa un o'r pleidiau ydych chi'n credu redodd yr ymgyrch orau?

B. Pa un o arweinwyr y pleidiau Cymreig ydych chi'n credu berfformiodd orau yn ystod yr ymgyrch etholiadol?

(o Scully a Larner 2016: 517)

### LLYFRYDDIAETH

Balsom, D., Madgwick, P., Van Mechelen, D. (1982)'The Political Consequences of Welsh Identity', *Studies in PublicPolicy, 97*, a hefyd fel (1984) *Ethnic and Racial Studies* (7) 299-325.

Balsom, D. (1985) 'The Three Wales Model,' yn J. Osmond (gol.), *The National Question Again: Welsh Political Identity in the 1980s* (Llandysul: Gomer).

Blondel, J. (1974) *Voters, Parties and Leaders* (Harmondworth: Penguin).

Butler, D., Stokes, D. E. (1965) *Political Change in Britain* (Llundain: Palgrave Macmillan).

Clarke, H, Sanders, D., Stewart, M. A., Whiteley, P. (2004) *Political Choice in Britain* (Oxford: OUP).

Himmelweit, H. T., Humphreys, P., Jaegar, M. (1981). *How Voters Decide* (Academic Press Inc.).

Hough, D., Jeffery, C. (2006) *Devolution and Electoral Politics* (Manceinion: MUP).

Scully, R., Larner, J. (2017) 'A Successful Defence: the 2016 National Assembly for Wales Election', *Parliamentary Affairs* (Cyf. 70) 507-529.